# Etholiadau Cymru 2011

HOME BUILDERS FEDERATION

**MANIFFESTO AR GYFER TWF** MAI 2011

Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) yn cynrychioli'r diwydiant adeiladu tai £20biliwn yn Lloegr a Chymru. Ein haelodau sy'n darparu 80% o'r cartrefi newydd a gaiff eu hadeiladu bob blwyddyn.

## MAE TAI YN FATER ALLWEDDOL AR GYFER POB ARDAL YNG NGHYMRU

- Mae Cymru yn wynebu argyfwng tai difrifol sydd â goblygiadau cymdeithasol ac economaidd clir
- Mae Shelter yn amcangyfrif fod tai gwael yn costio £168m y flwyddyn i'r gymdeithas yng Nghymru
- Mae bron 100,000 o deuluoedd yng Nghymru ar restri aros am dai awdurdodau lleol
- Mae'n rhaid i gynyddu nifer y tai a adeiledir yng Nghymru fod yn flaenoriaeth allweddol i lywodraeth ganolog a lleol.

## PRYNWYR TRO CYNTAF

- Bu gostyngiad mawr yn nifer prynwyr tro cyntaf yng Nghymru
- Mae'r swm cyfartalog sydd ei angen ar gyfer ernes yn fwy na £30,000. Mae'r swm hwn ymhell tu allan i gyrraedd y rhan fwyaf, hyd yn oed gyda help o 'fanc mam a dad'
- Mae pobl ifanc yn gorfod aros i fyw gyda'u rhieni am gyfnod hirach neu symud i ffwrdd o'r ardal lle cawsant eu magu
- Drwy FirstBuy, a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ddiweddar, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dyrannu £12M o gyllid ar gyfer Cymru. Medrai hynny helpu dros 1000 o bobl i bontio'r bwlch ernes. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gydio yn y cyfle a chyflwyno'r cynllun yng Nghymru.

## GOSTYNGIAD MEWN RHEOLEIDDIO GYDA PHWYSLAIS AR Y GALLU I GYFLENWI

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y bydd y toriadau a gynigiwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn brathu'n waeth yng Nghymru. Mae felly angen ymagwedd wahanol at gyflenwi polisi.
- Mae cost gor-reoleiddio ar safleoedd adeiladu tai yn un o'r prif gyfyngiadau ar ddarparu tai.
- Mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu polisïau sy'n gostwng biwrocratiaeth sy'n gwneud gormod o safleoedd yn anhyfyw.

## CYMRU GYSTADLEUOL

- Gall adeiladu tai fod yn sbardun allweddol ar gyfer adferiad economaidd yng Nghymru
- Mae pob tŷ a adeiledir yn creu 1.5 o swyddi uniongyrchol llawn-amser ynghyd â llawer mwy yn y gadwyn gyflenwi
- Byddai cynyddu adeiladu tai i'r lefelau gofynnol yn creu 10,000 o swyddi ychwanegol yng Nghymru, gyda phosibilrwydd o 20,000 o swyddi ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi - swyddi sector cyhoeddus a fedrai helpu i gydbwyso'r swyddi a gollwyd yn y sector cyhoeddus.

***Gallai cynyddu lefelau adeiladu tai fod â buddion cymdeithasol ac economaidd enfawr i Gymru***

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF)
Blwch SP 2512
Caerdydd
CF23 0GB
T: 02920 757 236 | F: 07770 752 884 | E: richard.price@hbf.co.uk | W: www.hbf.co.uk

www.hbf.co.uk